Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL** | | **GENERAL GRANTS COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 8 GORFFENNAF 2014 am 10:30 y bore** | | **TUESDAY, 8 JULY, 2014 at 10:30 a.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Mrs Mairwen Hughes 01248 752516** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS:**

**Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Chairman of the Trust (Yn rhinwedd ei Swydd/Ex-Officio)**
**Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Vice-Chairman of the Trust (Yn rhinwedd ei Swydd/Ex-Officio)**

**Lewis Davies**
**R Dew**
**Jeff Evans**
**Jim Evans**
**Vaughan Hughes**
**Victor Hughes**
**Llinos Medi Huws**
**Richard Owain Jones**
**Dylan Rees**
**P S Rogers**

# R H A G L E N

1 **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

2 **IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

4 **COFNODION CYFARFOD 9 GORFFENNAF, 2013** (Tudalennau 1 - 8)

Bydd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2013 yn cael eu cyflwyno.

5 **GRANTIAU BLYNYDDOL 2014/15**

Cyflwyno adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.
*(Adroddiad Hwyr)*

# YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

## PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffenaf, 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Mri. Richard A Dew, Jeff M Evans, Jim Evans, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Aled Morris Jones, Peter S Rogers. |
| **WRTH LAW**: | Ysgrifennydd,<br>Cyfrifydd Cyfalaf a'r Trysorlys (BD),<br>Cymhorthydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Cymhorthydd Gweinyddol (SC). |
| **YMDDIEHURIADAU**: | Mrs. Llinos Medi Huws, Messrs. Richard O Jones, Dylan Rees. Trysorydd. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Miss Emily Edwards – Profiad Gwaith (Disgybl Ysgol Uwchradd) – Sylwedydd |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr. Jeff Evans yn Gadeirydd.

Diolchodd i'r Aelodau am eu hyder ynddo.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr. Jim Evans yn Is-Gadeirydd.

**3 DATGAN DIDDORDEB**

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Mr. Richard Dew mew perthynas â chais 23 – Chwarae Cymunedol Rhosneigr. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor y Neuadd Bentref.

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Mr. Jim Evans mewn perthynas â chais 17 – Clwb Bowlio Tref Biwmares.

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Mr. Peter Rogers mewn perthynas â chais 1 - Clwb hwyl ar ôl ysgol – Parc y Bont, Llanddaniel.

**4 GRANTIAU BLYNYDDOL 2013/14**

Cyflwynwyd – adroddiad ar ran y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried y ceisiadau hynny sy'n berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Gwneir dyraniadau yn flynyddol o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i'r mathau canlynol o brosiectau :-

- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (grantiau cyfalaf bach)
- Grantiau Eraill (grantiau bychain unwaith ac am byth yn bennaf)

Yn ei gyfarfod ar 23 Ebrill, 2013, cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth lawn swm o £50,000 i'r Panel Grantiau i'w ddyrannu i'r categorïau arferol.

Mae'r swyddogion perthnasol o'r gwahanol adrannau wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd, cyn belled ag y bo modd ac yn gyson gyda phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth, amodau a sefydlwyd yn y gorffennol ac o fewn y swm sydd ar gael i'w ddyrannu. Mae argymhellion y swyddogion i'w gweld yn Atodiadau A a B oedd ynghlwm i'r adroddiad. Mae'r

ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r 'Amodau ar gyfer dosbarthu grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn' ac yr oedd copi ynglwm fel Atodiad C i'r adroddiad.

Nodwyd bod un cais arall sy'n llai syml ac sydd heb ei gynnwys yn y crynodeb uchod ond y byddai efallai'n werth ei gefnogi.  Y cais oedd  :-

**Cais Rhif 11 - Canolfan Hamdden Biwmares a'r Cylch:** (Mae rhedeg y ganolfan wedi ei drosglwyddo'n ddiweddar o Gyngor Sir Ynys Môn, ynghyd â'r offer y maent yn dymuno'i ailosod).

Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid neilltuo swm o £2,352 (grant sy'n cyfateb i 80% o gyfanswm y gost) i'r sefydliad gan eu bod yn teimlo fod yr achos yn haeddu cefnogaeth yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

**PENDERFYNWYD rhyddhau swm o £2,352 i Ganolfan Hamdden Biwmares a'r Cylch.**

**Roedd y ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd i'w dyrannu ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon yn 2012/13 fel a ganlyn :-**

| | | |
|---|---|---|
| 1. Clwb Hwyl ar ôl ysgol – Parc y Bont, Llanddaniel | Eu galluogi i gynnal gweithdai i ddifyrru'r plant | **(DIM)**<br>*(Ni fedrir cyllido costau rhedeg ac nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi clybiau ar ôl ysgol yn y gorffennol)* |
| 2. Groundwork Gogledd Cymru (ar ran Grŵp Lleiniau Garddio Benllech) | I brynu twneli tyfu planhigion a chyfarpar | **(£1,922)**<br>*(Mae Groundwork Gogledd Cymru wedi cynorthwyo i sefydlu Grŵp Lleiniau Garddio Benllech.  Deellir mai Grŵp Lleiniau Garddio Benllech fyddai berchen y cyfarpar).* |
| 14. Clwb Pêl-droed Bae Cemaes | Darparu lloches ddiogel rhag y tywydd i wylwyr ac adnewyddu'r ffens sydd wedi rhydu yn yr ardal i wylwyr ym mhen gogleddol y safle | **(£4,337)**<br>*(Teimlir y byddai hyn yn gwella ymarferoldeb a diogelwch y cyfleusterau)* |
| 17. Clwb Bowlio Tref Biwmares | Gwneud gwaith ar yr ardal o gwmpas y lawnt fowlio a phrynu peiriant torri gwair. | *(Byddai'r gwaith ar yr ardal o gwmpas y lawnt fowlio yn golygu adnewyddu pren sydd wedi pydru.  Bydd gwirfoddolwyr yn gosod y pren newydd a byddai'r grant felly'n mynd tuag at y deunyddiau'n unig.  Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth hon grant tebyg i Glwb Bowlio Llanfairpwll yn 2011/12.*<br>*Mae'r peiriant torri gwair yn 18 oed ac mae angen un newydd. Ni dderbyniwyd dyfynbrisiau cymharol. £4,150 a fyddai mwyafswm y gost a fyddai'n gymwys).*<br>**Hyd at £2,905 (yn seiliedig ar 70% o'r gost gymwys a fyddai'n gymwys).** |

| | | |
|---|---|---|
| 18. Neuadd Bentref Sefydliad y Merched, Llaneilian | Prynu system wresogi fwy effeithiol newydd. | **(DIM)**<br>*(Nid ydynt yn gymwys oherwydd cawsant arian o Gronfa'r Degwm yn 2011/12).* |
| 20. Cyngor Cymuned Llangristiolus a Cerrigceinwen | Gwella cyfleusterau ar gyfer y cyhoedd yn y fynwent newydd. | **(DIM)**<br>*(Anghymwys - wedi cael arian gan yr Ymddiriedolaeth hon yn 2011/12).* |
| 21. Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | Trwsio'r ramp mynediad i'r anabl a thrwsio'r wal derfyn. | **(DIM)**<br>*(Maent yn derbyn arian o nifer o ffynonellau, yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn).* |
| 23. Chwarae Cymunedol Rhosneigr | Prynu maen dringo ar gyfer y cae chwarae fel rhan o'r cynllun ailddatblygu a gwella mwy. | ***(£3,430)***<br>*(Mae cam 1 y cynllun yn mynd rhagddo ac wedi ychwanegu 'springers' yn ddiweddar ar gyfer plant oed cyn-ysgol ac wedi gwneud rhywfaint o waith tirlunio ar y pyllau tywod gan ychwanegu trawstiau balans, goleddfau naturiol a thwnnel.*<br>*Mae'r cais hwnna r gyfer cam 2 yn waith sydd heb gychwyn hyd yma. Dywedir y byddai'r maen dringo yn lle diogel i blant ddringo).* |
| 24. National Coastwatch Institution - Rhoscolyn | Gwella mynediad i'r orsaf a sicrhau diogelwch y cyhoedd yng nghyffiniau'r orsaf a gwaith paentio ac addurno. | **(DIM)**<br>*(Mae rhan o'r cais, sy'n werth £1,500, yn ymwneud â gwaith paentio ac addurno. Nid yw'r gwaith hwn yn gymwys ar gyfer ei gyllido.*<br>*Mae gweddill y cais yn ymwneud â gwella'r llwybr at y wylfan.*<br>*Ni dderbyniwyd dyfynbrisiau).* |
| 26. Pwyllgor Neuadd Bentref Llanfaelog | Trwsio'r simnai a gosod llechi newydd ar y to er mwyn rhwystro tamprwydd rhag treiddio i'r adeilad. | *(***(£1,949)**<br>*Mae problemau tamprwydd yn yr adeilad a hynny oherwydd llechi sydd wedi ei difrodi neu sydd ar goll a simnai sydd angen cap a chaeadau plwm newydd).* |

| | | |
|---|---|---|
| 29. Pwyllgor Cae Chwarae Tregele | Gosod ffens ddiogelwch, gwneud gwaith daear a phrynu offer chwarae ar gyfer y cae chwarae newydd. | **(DIM)**<br>*(Nid yw'r swm y gofynnwyd amdano o fewn sgôp ariannol yr Ymddiriedolaeth).* |
| 30. Clwb Pêl-droed Ynys Cybi | Byddai o gymorth i brynu peli, gwisg, offer cymorth cyntaf ac offer tebyg. | **(DIM)**<br>*(Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn y gorffennol wedi cefnogi prynu'r mathau hyn o offer oherwydd y byddai'n rhaid eu hadnewyddu bob blwyddyn yn rheolaidd. Yn ychwanegol at hyn, mae £1,250 o'r costau yn gysylltiedig â chostau rhedeg (yswiriant, llogi'r cae ac ati).* |
| 31. Caeau Chwarae Bae Cemaes | Prynu offer chwarae newydd, ffensio a rhoi arwynebedd diogelwch ar y caeau chwarae. | **(DIM)**<br>*(Mae'r grŵp wedi cael £5,250 hyd yma ac mae arnynt angen £57,958 arall. Byddai'r swm y gallai'r Ymddiriedolaeth ei gyfrannu tuag at y prosiect (gyda chyfraniadau wedi eu cyfyngu i £6k) yn gadael bwlch cyllido (yn seiliedig ar y cyllid a oedd wedi ei gadarnhau ar y pryd) o £51, 958, sef 82% o'r gost gyfan.* |
| 32. Canolfan Gymuned Gwelfor | Adnewyddu byrddau a chadeiriau sydd wedi gwisgo ac sy'n beryglus a phrynu cyfrifiadur newydd. | **(£489)**<br>*(Bwriedir defnyddio'r cyfrifiadur yn y swyddfa ac, o'r herwydd, ni fyddai o fudd uniongyrchol i'r cyhoedd. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn y gorffennol wedi cefnogi defnydd o'r fath.*<br>*Byddai'r dodrefn ar gael i'r cyhoedd ei ddefnyddio a byddai'n costio £699).* |
| 34. Cylch Chwarae Kingsland | Cynorthwyo i gyllido ail-leoli'r grŵp. | **(DIM)**<br>*(Nid yw costau rhedeg yn cymwys i'w gyllido).* |
| 35. Cwmni Cemaes Cyf | Prynu dodrefn fel rhan o'r gwaith o greu canolfan gynadleddau/hyfforddi yng Nghanolfan Dreftadaeth Cemaes. | **(£2,848)**<br>*(Mae hwn yn rhan o gynllun £100k (y llwyddwyd eisoes i sicrhau cyllid o £97k ar ei gyfer). Bwriedir y cynllun mwy i adfywio'r adeilad, gwella cynaliadwyedd drwy ffynonellau cynyddol o refeniw, elfennau gwyrdd a gwella hwylustod a nodweddion esthetig y cyfleuster).* |

| | | |
|---|---|---|
| 38. Clwb Pêl-droed Pentraeth | Gwastatáu'r arwynebedd chwarae drwy ostwng lefel y gornel o'r cae sydd yn y top ar yr ochr dde. | ***(£3,885)***<br>*(Mae'r Clwb wedi cael ei ddyrchafu'n ddiweddar I Gynghrair Gwynedd. Byddai'r gwelliannau hyn yn fodd i chwarae pêl-droed o safon uwch. Mae gan y Clwb gysylltiadau agos gyda'r gymuned leol a sylfaen gref o gefnogwyr).* |
| 39. Cyfeillion Cae Chwarae Dwyran | Gosod ffens ddiogelwch ar derfyn y cae chwarae rhwng y tir pori a'r lle chwarae. | ***(£1,362)***<br>*(Mae angen adnewyddu'r ffens derfyn rhwng y tir amaethyddol a'r lle chwarae ac mae'n bosibl y bydd yn risg i iechyd a diogelwch yn fuan).* |
| 41. Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon | Gwella edrychiad a diogelwch yr ystafelloedd newydd drwy osod ffenestri a drysau newydd yn lle'r rhai sydd wedi pydru. | **(£1,330)**<br>*(Lleolir yr ystafelloedd newid yng nghae cymunedol Llangoed a chant eu defnyddio gan yr holl glybiau chwaraeon sy'n defnyddio'r cae).* |
| 44. Clwb Pêl-droed Holyhead Hotspur | Prynu a gosod slab concrit ar gyfer gosod arno adeilad parod. | **(NIL)**<br>*(Diffyg gwybodaeth, dim prawf o ddeiliadaeth).* |
| 45. Uned Cadetiaid Môr Caergybi 183 | Prynu stôf newydd ar gyfer yr adeilad atodol i'w ddefnyddio gan y Cadetiaid Môr a'r grwpiau cymuned sy'n defnyddio'r cyfleusterau. | **(£651)**<br>*(Nid yw'r stôf gyfredol yn addas na'n ddiogel i'w defnyddio mwyach. Nid yw'r stôf yng ngali'r prif adeilad yn ddigon mawr ac effeithiol ar gyfer achlysuron a digwyddiadau).* |

**Cais 19 – Cymdeithas Amaethyddol Ynys Môn** (Gwella'r man eistedd yng nghae'r sioe)

Roedd yr Aelodau' o'r farn bod y cais hwn yn haeddu cefnogaeth oherwydd mae'n un i wella capasiti'r man eistedd allanol o gwmpas prif ring arddangos y sioe gyda'r bwriad y byddai hynny o fantais i bobl anabl, teuluoedd ifanc ac eraill.

Eglurodd yr Ysgrifennydd bod y Gymdeithas yn derbyn cyllid gan y Cyngor Sir bob blwyddyn a nododd fod gan y Gymdeithas asedau. Nododd yr Aelodau mai prif ased Cymdeithas Amaethyddol Môn yw'r Cae'r Sioe ym Mona ac roeddynt yn dymuno cadarnhau eu cefnogaeth i'r cais hwn.

**PENDERFYNWYD dyrannu swm o £1,690.50 i Gymdeithas Amaethyddol Ynys Môn.**

*(Roedd y Cynghorydd Jim Evans yn dymuno iddo gael ei gofnodi nad oedd wedi cefnogi'r argymhelliad hwn).*

**Roedd y ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd i'w dyrannu ar gyfer Grantiau Eraill yn 2012/13 fel a ganlyn :-**

| | | |
|---|---|---|
| 3. Clwb Pensiynwyr y Tŷ Coffi, Llanfaethlu | Rhoi cyfle i aelodau hyn y gymuned fynd ar dripiau | **(DIM)**<br>*(Nid yw costau rhedeg yn gymwys ar gyfer eu cyllido)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. | Clwb Cyfeillgarwch Pobl Hyn Rhosneigr | Helpu i gyllido costau bysus ar gyfer tripiau | **(DIM)** *(Nid yw costau rhedeg yn gymwys ar gyfer eu cyllido)* |
| 8. | Cyngor ar Bopeth, Caergybi | Helpu i gyllido Swyddog Diwygio Lles | **(DIM)** *(Nid yw costau rhedeg yn gymwys ar gyfer eu cyllido)* |
| 13. | Grŵp Marchogaeth Ynys Môn – Cymdeithas Marchogaeth i'r Anabl | Helpu i gyllido costau teithio gwirfoddolwyr ac yswiriant ar gyfer cleientiaid a gwirfoddolwyr | **(DIM)** *(Nid yw costau rhedeg yn gymwys ar gyfer eu cyllido)* |
| 15. | Ymarfer ar gyfer Byw, Cemaes | Talu i hyfforddwr cymwys gynnal y dosbarthiadau | **(DIM** *(Nid yw costau rhedeg yn gymwys ar gyfer eu cyllido)* |
| 16. | Cyngor Plwyf Eglwysig Morawelon | Darparu mynedfa i'r anabl a thoiledau i'r anabl yn yr adeilad | **(DIM)** *(Anghymwys – ni elli'r cefnogi gwaith trwsio ar eglwysi ac nid oes unrhyw gyfeiriad at ddefnydd cymunedol)* |
| 28. | Clwb Biwmares a'r Cylch i'r Methedig a'r Anabl | Cynorthwyo i gyllido costau llogi ystafelloedd, lluniaeth ac ati | **(DIM)** *(Nid yw costau rhedeg yn gymwys ar gyfer eu cyllido)* |
| 33. | Clwb Dydd Min y Môr | Cynorthwyo i gyllido Gweithgareddau ar gyfer yr Aelodau | **(DIM)** *(Nid yw costau rhedeg yn gymwys ar gyfer eu cyllido)* |
| 36. | Operation Friendship Ynys Môn | Cynorthwyo i gynnal y cyfarfod blynyddol rhyngwladol yn Ynys Môn | **(DIM)** *(Nid yw costau rhedeg yn Gymwys ar gyfer eu cyllido)* |

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r symiau, fel y cânt eu rhestru uchod (£x) [gyferbyn â'r symiau a argymhellir], ar gyfradd grant o 70%.**

**Mater Ychwanegol**

**Plac i Gydnabod Cymorth Ariannol**

Dywedodd yr Ysgrifennydd bod y cyfarfod llawn o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2013, wedi penderfynu cyflwyno plac yn nodi'r cyfraniad ariannol i brosiectau lleol ac y dylai'r plac hwnnw gael ei arddangos mewn man amlwg yn y lleoliad.

**PENDERFYNWYD**

- **Cyflwyno plac i sefydliadau sydd wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**
- **Rhoddi cyhoeddusrwydd yn y wasg leol i gyflwyno'r placiau a'r gefnogaeth ariannol.**

**MR. J.M. EVANS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank